## Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod ar 21 Ionawr 2004

## Cynigion a gyflwynwyd ar 14 Ionawr 2004

**Dadl Fer - NDM1781 Christine Chapman (Cwm Cynon); Trais yn y Cartref? – Fy Mhroblem i, Eich Problem Chi, Ein Problem Ni.**

**NDM1782 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn croesawu’r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid amlinellol a’r Cynllun Cyflawni a gyhoeddir o dan y strategaeth fel cam tuag at hybu iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru.

Cliciwch isod i weld y Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid amlinellol:

**Saesneg**
http://www.wales.gov.uk/subiagriculture/content/animalhealwelfare/animal-hw-strat-gb-e.pdf

**Cymraeg**
http://www.cymru.gov.uk/subiagriculture/content/animalhealwelfare/animal-hw-strat-gb-w.pdf

*E-bostiwyd copïau o Gynllun Cyflawni’r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid at yr Aelodau ar 14 Ionawr 2004.*

**NDM1783 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn croesawu’r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran trosglwyddo pwerau a gadwyd dros iechyd a lles anifeiliaid o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 15 Ionawr 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1782**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn lle 'croesawu'r' rhoi 'nodi'r'.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar y Gweinidog i adolygu'r arfer o roi cymhorthdal cyhoeddus drwy Gyswllt Ffermio i fridio cwn ar raddfa eang yng ngoleuni egwyddorion arferion lles gorau a amlygir yn Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid."

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn nodi â phryder yr achosion cynyddol o TB mewn gwartheg yng Nghymru ac yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Lafur y Cynulliad i leihau'r adnoddau yn y Gyllideb sy'n mynd i'r afael â TB mewn gwartheg."

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn mynegi pryder am y diffyg adnoddau a neilltuir ar gyfer atal mewnforio cig yn anghyfreithlon."

**NDM1783**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu "Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran trosglwyddo..." ac yn ei le rhoi "Yn nodi'r brys i drosglwyddo'n ddiymdroi y...".

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu "Yn croesawu'r camau a gymerwyd..." ac yn ei le rhoi "Yn nodi’r gwaith a wnaed...."